GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Deddf Ddedfrydu 2026: Effeithiau ar Ddarpariaeth Gofal Iechyd yng Nghymru

## Edrych ar Newidiadau Arfaethedig trwy Lens Penderfynyddion Ehangach Iechyd

### Rhan 1: Trosolwg ar yr Effeithiau Posibl





# Cynnwys

Crynodeb ..... 1
Cyflwyniad ..... 3
Newidiadau Dedfrydu ..... 3
Effeithiau ar Garchardai a Phrawf ..... 4
Effeithiau ar Wasanaethau Datganoledig ..... 5
Methodoleg ..... 6
Crynodeb o'r Canfyddiadau ..... 8
Argymhellion ..... 12
Atodiad: Cyfeiriadau ..... 17

# Awduriaeth a Chydnabyddiaethau

**Awduron:**

Adam Davies[1], Benjamin Gray[1], Liz Green[2], Kathryn Ashton[2], Stephanie Perrett[1]

**Cysylltiadau:**


[1]Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Clefydau Heintus (CDIHP), Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

[2]Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC), Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Cydnabyddiaethau:**

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn y gweithdy Asesu Effaith Iechyd, yn enwedig Liz Green ac Amanda Jones.

Hoffem hefyd ddiolch i'r unigolion canlynol am eu cyfraniad a'u hadborth a helpodd i ddatblygu'r adroddiad hwn: Rick Lines, Jo Hopkins, Michelle Hughes a Mary-Eve Nelson.



# Crynodeb

**49,300**
o ddedfrydau carchar tymor byr bob blwyddyn[3]

**13,000+**
o Ofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol bob blwyddyn[4]

**8,858**
mwy o unigolion yn gymwys i gael Dedfrydau Gohiriedig[1]

**22,000**
yn fwy o unigolion i'w tagio bob blwyddyn[2]

**Bellach yn fwy tebygol o gael dedfryd gymunedol**

## Newidiadau

- Mwy o ddefnydd o ddedfrydu cymunedol gan gynnwys defnyddio **tagiau electronig** a **gofynion triniaeth dedfryd gymunedol (CSTR)**
- Anogaeth i beidio â rhoi dedfrydau carchar tymor byr (o dan 12 mis) os nad ydyn nhw'n angenrheidiol
- Mwy o ddefnydd o orchmynion dedfryd ohiriedig a gorchmynion gohirio
- Y rhai sy'n ymddwyn yn dda yn cael eu rhyddhau o'r carchar yn gynt
- Newidiadau i gwmpas goruchwyliaeth gymunedol gyda goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu yn cael ei ddiddymu a goruchwyliaeth yn targedu'r rhai sy'n peri'r risg fwyaf

## Effaith ar Grwpiau

- Pobl yn y system cyfiawnder troseddol
- Plant a phobl ifanc
- Dioddefwyr
- Menywod
- Pobl ar incwm isel
- Pobl sy'n defnyddio sylweddau
- Dinasyddion tramor
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Pobl ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu
- Teuluoedd pobl yn y system cyfiawnder troseddol
- Cyfiawnder troseddol a sefydliadau'r trydydd sector

## Effeithiau

### + Effeithiau Cadarnhaol Posibl:

- Llai yn dod i gysylltiad â niwed mewn carchardai, e.e. trais, sylweddau niweidiol ac ynysu
- Gwell cyfle i gynnal ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol, e.e. llety, cyflogaeth, cysylltiadau teuluol a chymunedol
- Gwell canlyniadau adsefydlu, gan dorri'r cylch aildroseddu a rhagor o ddedfrydau carchar
- Llai o niwed i blant o ganlyniad i rieni sy'n cael eu gwahanu gan garcharu

### − Effeithiau Negyddol Anfwriadol:

- Posibilrwydd o golli mynediad at wasanaethau sydd i'w cael yn y ddalfa ar hyn o bryd, o ganlyniad i ffactorau sy'n rhwystro unigolion yn y system cyfiawnder troseddol rhag cael mynediad at wasanaethau cymunedol, megis:
  - Meddyg teulu, deintydd ac optegydd
  - Sgrinio am feirysau a gludir yn y gwaed, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
  - Clinigau brechu
- Galw cynyddol ar ofal sylfaenol, gofal eilaidd, cymorth sylweddau a gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol
- Posibilrwydd o golli mynediad at gymorth adsefydlu mewn perthynas â chyflogaeth, sgiliau ac addysg sydd i'w gael yn y ddalfa ar hyn o bryd
- Llai o gyfleoedd i ymyrryd mewn perthynas â hunanladdiad, dychwelyd at ddefnyddio cyffuriau ac alcohol

# Argymhellion

1

## Adolygu model gofal iechyd carchardai

Bydd poblogaeth y carchardai yn parhau i gynyddu a heneiddio, gan arwain at fwy o alw am iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai. Bydd angen i'r model presennol esblygu i sicrhau ei fod yn addas at y diben.

2

## Sicrhau parhad gofal ar gyfer y rhai sy'n cael eu rhyddhau'n gynnar

Bydd newidiadau i Ddedfrydau Penodol Safonol (DPS) yn arwain at ryddhau pobl o'r ddalfa yn gynnar fesul cyfran, gan ddechrau ym mis Medi 2026. Dylai'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf sicrhau cydlyniad priodol gyda phartneriaid yn y gymuned. Dylid rhoi sylw arbennig i'r rhai sydd ag anghenion gofal cymdeithasol lefel uchel a'r rhai sydd mewn gofal lliniarol.

3

## Cefnogi unigolion i barhau i gael mynediad at wasanaethau iechyd yn y gymuned

Mae carchardai yn darparu ystod o wasanaethau iechyd i'r rhai sydd yn y ddalfa. Gan fod mwy o ddedfrydau cymunedol yn cael eu defnyddio, mae perygl y gall anghydraddoldebau iechyd ehangu os na fydd yr unigolion hyn yn llwyddo i ymgysylltu â gwasanaethau cymunedol.

Mae nifer o rwystrau a all atal person rhag ymgysylltu. Dylai gwasanaethau ystyried sut i fynd i'r afael â'r rhain a sut i hyrwyddo gwasanaethau iechyd. Dylai gwasanaethau hefyd ystyried ehangu modelau allgymorth, e.e. canolfannau galw heibio mewn lleoliadau prawf, yn ogystal â chryfhau partneriaethau rhwng gofal sylfaenol, prawf ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill.

4

## Paratoi ar gyfer mwy o alw am wasanaethau cymunedol

Bydd mwy o ddedfrydau cymunedol yn cynyddu'r galw ar draws gwasanaethau sylfaenol, eilaidd, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ac yn sbarduno'r galw am CSTR. Bydd hefyd yn rhoi pwysau ar wasanaethau cymorth ehangach, e.e. tai, cyflogaeth a chyngor ariannol. Dylai comisiynwyr a darparwyr gynllunio, ystyried adnoddau ac ehangu gwasanaethau er mwyn bodloni'r galw cynyddol.

5

## Ystyried effeithiau llai o oruchwyliaeth gymunedol

Mae gwasanaethau prawf yn bwriadu lleihau dwyster yr oruchwyliaeth ar gyfer unigolion sy'n cael eu dosbarthu'n risg leiaf, yn ogystal â chwtogi cyfnodau goruchwylio. Gall y dull hwn leihau cyfleoedd i ymyrryd os bydd rhywun yn ailddechrau defnyddio cyffuriau neu alcohol, neu os bydd risgiau megis hunanladdiad neu hunan-niweidio yn cynyddu.

Felly, dylai goruchwyliaeth ganolbwyntio ar gysylltu unigolion â gwasanaethau priodol, gan sicrhau trosglwyddiad llyfn at gefnogaeth barhaus a chynaliadwy.

6

## Ystyried y goblygiadau cost ar wasanaethau datganoledig a gwasanaethau eraill y system gyfiawnder

Argymhellir cynnal dadansoddiad economaidd pellach er mwyn deall yr holl oblygiadau ariannol ar gyfer gwasanaethau datganoledig a sefydliadau'r trydydd sector.

## Cyflwyniad

Gan ragweld y newidiadau a wnaed gan y Ddeddf Ddedfrydu (2026), fe wnaeth Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Clefydau Trosglwyddadwy (CDIHP) ac Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) gynnal gweithdy cyfranogol gyda gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol i lywio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI).

Roedd y gweithdy'n edrych ar oblygiadau diwygiadau'r DU ar ofal iechyd mewn carchardai a lleoliadau cymunedol (ill dau yn faterion sydd wedi'u datganoli yng Nghymru), gan nodi pa grwpiau o'r boblogaeth sy'n debygol o deimlo'r effaith, a pha brif benderfynyddion iechyd a llesiant sy'n debygol o gael eu dylanwadu. Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r AEI (Rhan 1) a mae adroddiad technegol manylach (Rhan 2) ar gael ar wefan UGAEIC.

Bydd canfyddiadau'r AEI yn llywio datblygiad polisïau a chyflenwad gwasanaethau i unigolion o fewn y system cyfiawnder troseddol a grwpiau eraill a fydd yn teimlo'r effaith, gan annog ystyriaeth o effeithiau iechyd posibl i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant.

## Cefndir

Mae Deddf Ddedfrydu (2026) yn cyflwyno diwygiadau mawr a gynlluniwyd i leddfu'r pwysau ar y system garchardai a phrawf ledled Cymru a Lloegr. Mae'n dilyn cyfnod o orlenwi acíwt mewn carchardai a arweiniodd at gyflwyno mesurau brys i reoli'r galw, gan gynnwys rhyddhau cynnar ac addasiadau i gwmpas goruchwyliaeth gymunedol. Disgwylir i'r ddeddfwriaeth leihau poblogaeth carchardai o thua 9,800[5], a chynyddu'r defnydd o ddedfrydu cymunedol fel dewis amgen i gadw pobl yn y ddalfa .

## Newidiadau Dedfrydu

Bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei roi ar waith yn raddol dros 2026/2027 a 2027/2028. Dyma rai o'r newidiadau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf[6]:

### Mwy o Ddedfrydu Cymunedol

- Mae hwn yn cyflwyno rhagdybiaeth i ohirio dedfrydau tymor byr (12 mis neu fyrrach) a defnyddio gorchmynion cymunedol a dedfrydau gohiriedig fel dewis amgen i garcharu
    - Ehangu'r defnydd o dagio electronig, gyda thua 22,000 yn fwy o unigolion yn cael eu tagio bob blwyddyn ledled Cymru a Lloegr[7]
    - Gwneud mwy o ddefnydd o ofynion triniaeth dedfrydau cymunedol i gefnogi'r rhai sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl[8]
- Ymestyn pwerau i atal dedfrydau carchar hyd at uchafswm o 3 blynedd
- Ymestyn uchafswm hyd gorchmynion gohirio (sef pan fydd llysoedd yn gohirio

dedfryd am gyfnod penodol er mwyn gweld sut mae unigolyn yn ymddwyn neu'n cydymffurfio ag amodau penodol)
- Newidiadau i fechnïaeth i roi llai o ffafriaeth i gadw pobl yn y ddalfa pan nad oes gobaith gwirioneddol o allu rhoi'r person yn y ddalfa ar unwaith.

### Rhyddhau o'r Ddalfa yn

- Rhyddhau o'r ddalfa yn gynharach, ar gam 33% yn hytrach na cham 40%, ar gyfer y rhai sydd â Dedfrydau Penodol Safonol (SDS)
- Rhyddhau o'r ddalfa yn gynharach, ar gam 50% yn hytrach na cham 67%, ar gyfer y rhai sy'n cyflawni Dedfrydau Penodol Safonol am droseddau mwy difrifol sy'n cynnwys trais difrifol a throseddau rhywiol (SDS+)
- Cyflwyno adalw cyfnod penodol o 56 diwrnod a chyfyngu ar gymhwysedd am adalw safonol

### Newidiadau i Gwmpas Goruchwyliaeth

- Diddymu Goruchwyliaeth Ôl-Ddedfrydu (PSS) sy'n cefnogi pobl sy'n gadael y carchar am y flwyddyn sy'n dilyn dedfryd o garchar tymor byr
- Rhoi'r gorau i oruchwyliaeth gymunedol yn gynnar ar gyfer rhai troseddwyr a chyflwyno goruchwyliaeth llai dwys ar gyfer y rhai â risg is

## Effeithiau ar Garchardai a Phrawf

### Capasiti'r

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu darparu 14,000 o leoedd carchar ychwanegol ledled Cymru a Lloegr erbyn 2031[9] , gan gynnwys 425 o leoedd newydd yng Nghymru drwy ehangu yng Ngharchar Parc a Charchar Prescoed, a chynyddu uchafswm capasiti gweithredol Cymru o 7.6% i 6,036 o leoedd[10].

### Newidiadau i Boblogaeth y

Disgwylir i'r diwygiadau arfaethedig arwain at ostyngiad cymedrol yn y boblogaeth sydd wedi'u carcharu yn y tymor byr drwy gydol 2026 a 2027. Bydd hyn yn caniatáu amser i'r carchardai newydd a'r estyniadau gael eu hadeiladu a fydd yn lleddfu'r pwysau gorlenwi presennol[11].

Fodd bynnag, bydd poblogaeth y carchardai yn codi'n gyson wedi hynny, a rhagwelir y bydd yn cynyddu i oddeutu 95,900 erbyn mis Tachwedd 2032—a gallai gynyddu i 100,000 neu fwy.
Mae'r rhagamcan canolog o'r galw yn gynnydd o 9.6% (oddeutu 8,400 o bobl) o gymharu â phoblogaeth y carchar ym mis Medi 2025[12].

### Newidiadau i Ddemograffeg

Mae poblogaeth carchardai Cymru a Lloegr yn heneiddio'n gyflym, ac mae'r nifer sy'n hŷn na 60 yn 2025 bedair gwaith yn uwch nag yr oedd yn 2002[13]. Yn 2025 roedd mwy na 17% o boblogaeth y carchar dros 50 oed[14], dyma grŵp sy'n fwy tebygol o gael cyflyrau iechyd cronig cymhleth, gan gynnwys clefyd niwroddirywiol a heriau symudedd[15] . O ganlyniad, disgwylir i'r galw am ofal iechyd mewn carchardai aros yn uchel a chynyddu, a hynny o ganlyniad i dwf cyffredinol y boblogaeth yn ogystal ag anghymesuredd anghenion iechyd pobl hŷn yn y carchar o'i gymharu â phobl o'r un oedran yn y gymuned[16].

### Capasiti'r

Mae'r Gwasanaeth Prawf wedi bod dan straen parhaus o ganlyniad i gyfres o ad-drefniadau a phrinder staff[17]. Er y gallai rhai diwygiadau arwain at leihau llwythi gwaith, disgwylir y bydd mwy o ddedfrydau cymunedol a dedfrydau gohiriedig arwain at fwy o bobl yn cael eu goruchwylio yn y gymuned. Er gwaethaf y gwelliannau effeithlonrwydd a ddaw o ddiwygio digidol, rhagwelir y bydd y galw cyffredinol ar y gwasanaeth prawf yn codi eto, ac y bydd bylchau yn y gweithlu yn debygol o barhau a dwysáu'r pwysau ar wasanaethau, a allai olygu bod angen rhagor o ddiwygiadau yn y dyfodol[18].

## Effaith ar Wasanaethau

Yng Nghymru, mae rhai meysydd polisi wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol y bydd nifer o'r gwasanaethau hyn yn teimlo effaith y newidiadau a fydd yn cael eu cyflwyno gan Ddeddf Dedfrydu 2026, gan gynnwys:

- Iechyd a gofal iechyd
- Gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol
- Tai a digartrefedd

Yn ogystal â hyn, mae rhai gwasanaethau sy'n cefnogi unigolion sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol (megis gwasanaethau camddefnyddio sylweddau) yn cael eu comisiynu ar y cyd â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sydd ar hyn o bryd am gael eu diddymu yn 2028[19].

Disgwylir y bydd gan y newidiadau y mae'r Ddeddf Dedfrydu am eu cyflwyno oblygiadau i'r gwasanaethau datganoledig hyn ac, mewn llawer o achosion, gallant arwain at fwy o alw, fel yr amlinellir isod. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd newid yn y galw o wasanaethau a ariennir gan Lywodraeth y DU i'r rhai sydd wedi'u datganoli.

Er bod yr adroddiad yn nodi ystod o effeithiau posibl ar wasanaethau datganoledig, nid yw'n meintioli'r costau economaidd y mae'n debygol y bydd y gwasanaethau hyn yn eu hysgwyddo.

# Methodoleg

## Gweithdy AEI

Cynhaliwyd gweithdy ar 12 Mai 2025 yn swyddfeydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2 Cwr y Ddinas, Caerdydd. Gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol o'r byd academaidd, y trydydd sector, gwasanaethau iechyd, iechyd y cyhoedd, gwasanaethau prawf a charchardai a chynrychiolwyr cyfoedion i gymryd rhan. Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth EF
- GIG De-orllewin Lloegr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Prifysgol De Cymru
- Llywodraeth Cymru

Hwyluswyd y gweithdy gan UGAEIC, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac roedd yn defnyddio dull ansoddol.

Rhoddodd Pennaeth Integreiddio Gwasanaethau yng Ngwasanaeth Prawf Cymru gyflwyniad a oedd yn amlinellu cefndir y diwygiadau gan gynnwys trosolwg o'r mesurau eithriadol a roddwyd ar waith gan y gwasanaethau carchar a phrawf.


Prif nod y gweithdy oedd archwilio goblygiadau posibl y diwygiadau dedfrydu arfaethedig (bryd hynny) ar gyfer darpariaeth gofal iechyd mewn carchardai a lleoliadau cymunedol. Ar y pryd, roedd y diwygiadau hyn yn rhan o argymhellion yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, a oedd â'r nod o fynd i'r afael â gorlenwi carchardai. Mae'r cynigion hyn wedi cael eu deddfu ers hynny drwy Ddeddf Dedfrydu 2026.

## Grwpiau

Nododd y cyfranogwyr grwpiau poblogaeth allweddol a oedd yn debygol o deimlo effaith anghymesur o ganlyniad i'r diwygiadau gan ddefnyddio **Rhestr Wirio Grwpiau Poblogaeth UGAEIC**, sy'n darparu rhestr anghyflawn o grwpiau a allai fod yn fwy agored i newid. Mae'r grwpiau a nodwyd wedi'u hamlinellu isod (gweler tudalen 7).

## Penderfynyddion Iechyd a Llesiant

Defnyddiodd y grŵp **Restr Wirio Penderfynyddion Iechyd a Llesiant UGAEIC** hefyd i gefnogi trafodaeth strwythuredig, gan sicrhau persbectif ehangach gan gynnwys ystod eang o ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac ymddygiadol sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant. Bu'r cyfranogwyr yn edrych ar sut allai'r diwygiadau arfaethedig arwain at effeithiau cadarnhaol a negyddol ar draws pob un o'r penderfynyddion hyn.



## Population Groups Checklist

**This checklist is for use during a HIA Screening and Appraisal in order to identify the population groups who could be more impacted than others by a policy/project/proposal.**

The groups listed below have been identified as more susceptible to poorer health and wellbeing outcomes (health inequalities) and therefore it is important to consider them in a HIA Screening and Appraisal. In a HIA, the groups identified as more sensitive to potential impacts will depend on the characteristics of the local population, the context, and the nature of the proposal itself.

This list is therefore just a guide and is not exhaustive. It may be appropriate to focus on groups that have multiple disadvantages. Please also note that terminology can change over time/ publication.

**Sex/Gender related groups**
- Female
- Male
- Transgender
- Other (please specify)

**Age related groups** *(could specify age range for special consideration)*
- Children and young people
- Early years (including pregnancy and first year of life)
- General adult population
- Older people

**Groups at higher risk of discrimination or other social disadvantage**
- Black and minority ethnic groups (please specify)
- Carers
- Ex-offenders
- Gypsies and Travellers
- Homeless
- Language/culture (please specify)
- Lesbian, gay and bisexual people
- Looked after children
- People seeking asylum
- People with long term health conditions
- People with mental health difficulties
- People with physical, sensory or learning disabilities/difficulties
- Refugee groups
- Religious groups (please specify)
- Lone parent families
- Veterans

**Income related groups**
- Economically inactive
- People on low income
- People who are unable to work due to ill health
- Unemployed/workless

**Geographical groups and/or settings** *(note - can be a combination of factors)*
- People in key settings: workplaces/schools/hospitals/ care homes/ prisons
- People living in areas which exhibit poor economic and/or health indicators
- People living in rural, isolated or over-populated areas
- People unable to access services and facilities

© 2020 Public Health Wales NHS Trust.
Material contained in this document may be reproduced under the terms of the Open Government Licence (OGL)
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ provided it is done so accurately and is not used in a misleading context.
The material must be acknowledged as © Public Health Wales NHS Trust and the title of the document specified.
Copyright in the typographical arrangement, design and layout belongs to Public Health Wales NHS Trust.



## Health and Wellbeing Determinants Checklist

PHYSICAL, MENTAL, SOCIAL, ENVIRONMENTAL HEALTH AND WELLBEING

**1. Behaviours affecting health**
- Diet / Nutrition / Breastfeeding
- Physical activity
- Risk-taking activity i.e. addictive behaviour, gambling
- Social media use
- Use of alcohol, cigarettes, Electronic Nicotine Delivery Systems (i.e. e-cigarettes)
- Sexual activity
- Use of substances, non-prescribed medication, and abuse of prescription medication

**2. Social and community influences on health**
- Adverse childhood experiences i.e. physical, emotional or sexual abuse
- Community cohesion, identity, local pride
- Community resilience
- Divisions in community
- Family relationships, organisation and roles
- Domestic violence
- Language
- Cultural and spiritual ethos
- Neighbourliness
- Other social exclusion i.e. homelessness, incarceration
- Parenting and infant attachment (strong early bond between infant and primary caregiver)
- Peer pressure
- Racism
- Sense of belonging
- Social isolation/loneliness
- Social capital, support and networks
- Third Sector and volunteering
- Citizen power and influence

**3. Mental Health and Wellbeing**

**Could there be potential impacts on:**
- Emotional wellbeing, life satisfaction or resilience?
- A sense of control?
- Feeling worthwhile, valued or having a sense of purpose?
- Uncertainty or anxiety?
- Feeling safe and secure?
- Participation in community and economic life?

**4. Living and environmental conditions affecting health**
- Air Quality
- Attractiveness of area
- Community safety
- Access, availability and quality of green and blue natural spaces
- Housing quality and tenure
- Indoor environment
- Health and safety
- Light pollution
- Noise
- Quality and safety of play areas (formal and informal)
- Road safety
- Odours
- Urban/Rural built and natural environment and neighbourhood design
- Waste disposal, recycling
- Water quality i.e. sea water

**5. Economic conditions affecting health**
- Unemployment
- Poverty including food and fuel poverty
- Income
- Personal and household debt
- Type of employment i.e. permanent/temporary, full/part time
- Economic inactivity
- Working conditions i.e., bullying, health and safety, environment

**6. Access and quality of services**
- Careers advice
- Education and training
- Information technology, internet access, digital services
- Leisure services
- Medical and health services
- Welfare and legal advice
- Other caring services i.e. social care, Third Sector, youth services, childcare
- Public amenities i.e. village halls, libraries, community hub
- Shops and commercial services
- Transport including parking, public transport, active travel

**7. Macro-economic, environmental and sustainability factors**
- Biodiversity
- Climate change i.e. flooding, heatwave
- Cost of living i.e. food, rent, transport and house prices
- Economic development including trade and trade agreements
- Gross Domestic Product
- Regeneration
- Government policies i.e. Sustainable Development principle (integration, collaboration, involvement, long term thinking, and prevention)

# Crynodeb o'r Canfyddiadau

## Effaith ar Grwpiau Poblogaeth

Fe wnaeth y gweithdy AEI nodi y gallai'r grwpiau poblogaeth canlynol deimlo effeithiau newidiadau'r Ddeddf Dedfrydu (2026):

- **Plant a phobl ifanc**
- **Cyfiawnder troseddol a sefydliadau'r trydydd sector**
- **Teuluoedd pobl yn y system cyfiawnder troseddol**
- **Dinasyddion tramor**
- **Unigolion sydd wedi'u heithrio o'r Ddeddf**[i]
- **Pobl sydd mewn perygl o wahaniaethu**
- **Pobl yn y system cyfiawnder troseddol**
- **Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu ynysig**
- **Pobl ar incwm isel**
- **Pobl sy'n defnyddio sylweddau**
- **Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor**
- **Pobl ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu**
- **Dioddefwyr**
- **Menywod**

## Canfyddiadau

Isod, byddwn yn rhoi sylw i'r effeithiau ar rai o'r grwpiau poblogaeth hyn. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau cadarnhaol posibl a'r effeithiau negyddol posibl. Nodir y gallai rhai o'r effeithiau hyn fod yn ganlyniadau anfwriadol.

Nid bwriad y canfyddiadau hyn yw bod yn gynrychiolaeth gyflawn o'r adborth o'r gweithdy. Mae'r canfyddiadau manwl i'w cael yn Rhan 2 o'r adroddiad.

### Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol

**Mae'r grŵp hwn yn cynnwys pobl yn y carchar a'r rhai sydd dan oruchwyliaeth gymunedol y gwasanaeth prawf.**

**Effeithiau Cadarnhaol Posibl:**

- Llai tebygol o ddod i gyswllt â niwed posibl mewn carchardai, er enghraifft:
  - Trais: gallai llai o orlenwi mewn carchardai arwain at ostyngiad mewn trais mewn carchardai ac amgylchedd mwy sefydlog[20]
  - Cyffuriau: llai tebygol o ddod i gyswllt â'r sylweddau risg uchel sy'n cylchredeg

[i] Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n cyflawni dedfrydau o garchar, e.e. Dedfrydau Amhenodol i Ddiogelu'r Cyhoedd (IPP) a Dedfrydau Estynedig Penodol (EDS), na fydd yn elwa o'r newidiadau yn Neddf Dedfrydu 2026 gan eu bod wedi'u heithrio.

mewn carchardai
    - Ynysiad a cholli cysylltiadau cymunedol: llai o risg o niwed i iechyd meddwl oherwydd unigrwydd, ynysiad a cholli rhwydweithiau cymorth cymunedol
- Cynnal a meithrin cyfalaf cymdeithasol:
    - Llety: mwy o debygolrwydd o gadw llety cymunedol
    - Cyflogaeth: llai o aflonyddwch i gyflogaeth a/neu lai o risg o ddiweithdra
    - Cysylltiadau cymunedol a theuluol: gall goruchwyliaeth gymunedol Gefnogi pobl i gynnal a chadw perthnasoedd teuluol a chymunedol
- Gwell canlyniadau adsefydlu:
    - Yn ystadegol, mae dedfrydau cymunedol yn fwy tebygol o leihau aildroseddu a thorri cylch troseddu o'i gymharu â dedfrydau carchar thymor byr[21]
    - Bydd gan garchardai well gallu i ganolbwyntio ar weithgareddau adsefydlu yn hytrach nag ymateb i'r argyfwng gorlenwi
- Cefnogi parhad gofal gyda gwasanaethau iechyd cymunedol
- Gallai gwella pa mor rhagweladwy yw dyddiadau rhyddhau i'r rhai sy'n bwrw dedfrydau carchar ei gwneud yn haws i wneud cynllunio cyn rhyddhau a buddio pharhad gofal

**Effeithiau Negyddol Anfwriadol Posibl:**

- Llai o fynediad at wasanaethau adsefydlu sydd ar gael yn y ddalfa, e.e:
    - Addysg, hyfforddiant a sgiliau a all wella rhagolygon cyflogaeth, gan gynnwys cefnogaeth Byrddau Cynghori ar Gyflogaeth sy'n darparu cysylltiadau â chyflogwyr posibl
- Llai o fynediad at wasanaethau gofal iechyd (gall fod yn anoddach cael mynediad at ofal sylfaenol cymunedol na gofal iechyd yn y carchar):
    - Gall gofal deintyddol, optegwyr a meddygon teulu fod ag amseroedd aros hirach yn y gymuned o'i gymharu â'r ddalfa[ii]
    - Gall y gwasanaethau sgrinio a gynigir yn rheolaidd mewn amgylchedd carchar, e.e. profion feirysau a gludir yn y gwaed (e.e. hepatitis B, hepatitis C, HIV), heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (e.e. clamydia, siffilis, gonoroea) a chanser (e.e. canser y coluddyn), gael eu defnyddio gan lai o'r boblogaeth mewn lleoliadau cymunedol.
    - Clinigau brechu ac imiwneiddio: mae brechlynnau ar gyfer clefydau megis COVID-19, ffliw tymhorol, y frech goch, clwy'r pennau a rwbela (MMR), hepatitis B a brechlynnau niwmococol ar gael yn rhwydd mewn carchardai . Efallai na fydd y rhain mor hawdd i'w cael yn y gymuned, a gall y meini prawf cymhwysedd fod yn wahanol mewn carchardai o'i gymharu â'r gymuned.
- Colli ysgogiad i newid ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd, e.e:
    - Ysmygu: rhaid rhoi'r gorau i ysmygu yn y ddalfa ac mae cefnogaeth therapiwtig ar gael yn rhwydd ac yn cael ei hyrwyddo

[ii] Mae bwriad i ofal iechyd mewn carchardai a'r gymuned fod yn gyfwerth a'i gilydd; fodd bynnag, efallai y bydd gan rai gwasanaethau cymunedol amseroedd aros hirach o'i gymharu â'r ddalfa. Gall unigolion o fewn y system cyfiawnder troseddol hefyd brofi rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau cymunedol fel cofrestru gyda meddyg teulu, deintydd, ac ati.

    - Cyffuriau ac alcohol: Gall amgylchedd carchar fod yn gyfle i fynd i'r afael â chamddefnydd o sylweddau drwy gynnig gwasanaethau cymorth seicolegol a rhagnodi therapiwtig (e.e. triniaethau amnewidion opioid). Yn benodol, gall carchardai gynnig goruchwyliaeth wrth ddadwenwyno rhag sylweddau
- Llai o gyfleoedd i ymyrryd neu i ymgysylltu unigolion â gwasanaethau iechyd:
    - Mae poblogaethau Cyfiawnder Troseddol yn wynebu heriau o ran mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn y gymuned, gan gynyddu'r risg o oedi cyn cael diagnosis a thriniaeth. Efallai na fydd rhai unigolion wedi cofrestru gyda gwasanaethau iechyd cymunedol
    - Gall llai o gefnogaeth prawf gyfyngu ar gyfleoedd i ysgogi a chyfeirio pobl sydd ar brawf at wasanaethau cymunedol e.e. cyffuriau, alcohol, iechyd meddwl, cyllid, cyflogaeth, ac ati.
- Creu rhwystrau newydd rhag ymgysylltu â gwasanaethau:
    - Gall mwy o fonitro electronig gan ddefnyddio tagiau ffêr achosi stigma ac annog pobl i beidio â defnyddio gwasanaethau mewn cymunedau.
    - Gall rhai unigolion fyw mewn ardaloedd â chysylltiadau trafnidiaeth gwael, a gall fod yn anodd iddyn nhw ddefnyddio gwasanaethau cymunedol oherwydd cost, pellter neu ddiffyg cysylltiadau trafnidiaeth dibynadwy.
- Gall amgylchedd y carchar gynnig cymuned[22], ac efallai y bydd rhai unigolion yn teimlo mwy o unigedd a diffyg cysylltiad yn y gymuned. Gall unigolion golli mynediad at wasanaethau bugeiliol sy'n seiliedig ar ffydd ac sy'n hawdd i'w cael yn y ddalfa.

## Plant a Phobl Ifanc

**Mae'r grŵp hwn yn cynnwys plant Pobl ar Brawf (PoP) a Phobl sydd yn y Carchar (PiP) yn ogystal â'r rhai a allai ddod i gysylltiad â nhw**

### Effeithiau Cadarnhaol Posibl:

- Llai o amlygiad i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), e.e. rhieni'n gwahanu yn sgil carcharu, a llai o alw am ofal maeth neu drefniadau gofalu dros dro. Mae tua 17,000 o blant bob blwyddyn yn cael eu heffeithio yn sgil carcharu mamau[23] .
- Gwell ymlyniad rhwng rhiant a baban drwy gynnal cysylltiadau cynnar (e.e. parhau i fwydo ar y fron).

### Effeithiau Negyddol Anfwriadol Posibl:

- Gall rhai troseddwyr aros yng nghartref y teulu, a gallai hynny gynyddu amlygiad plentyn i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys esgeulustod, cam-drin rhywiol, cam-drin domestig neu gamddefnyddio sylweddau.

## Menywod

**Mae'r grŵp yma yn cynnwys unigolion sy'n uniaethu fel menywod ac sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae menywod yn fwy tebygol o gael dedfrydau carchar byrrach[24] ac o dreulio'r dedfrydau hyn yn Lloegr (fel arfer yng Ngharchar Styal neu Garchar Eastwood Park), sy'n aml yn bell o'u cartrefi – oddeutu 100 milltir ar gyfartaledd[25]**

**Effeithiau Cadarnhaol Posibl:**

- Gall gwahanu teulu yn sgil carcharu roi straen sylweddol ar berthnasoedd a chyfyngu ar gyfleoedd i gynnal cysylltiad â phlant a rhwydweithiau cymorth ehangach, felly, mae'n debyg y bydd y rhagdybiaeth yn erbyn dedfrydau tymor byr o fudd i fenywod gan y bydd yn cefnogi cynnal cysylltiadau teuluol a chryfhau cysylltiadau o fewn eu cymunedau.
- Gall dedfrydu gohiriedig yn amlach fel dewis amgen i'r ddalfa fod yn arbennig o fuddiol i fenywod[26]. Gall hyn fod o fudd arbennig i fenywod sy'n feichiog ac mae'n cefnogi cynnal cysylltiadau cynnar gan gynnwys bwydo ar y fron.

## Dioddefwyr

**Mae'r grŵp hwn yn cynnwys pobl sydd wedi bod yn ddioddefwyr trosedd yn ogystal â'r gymuned ehangach sy'n cael eu heffeithio gan droseddau yn eu hardal.**

**Effeithiau Cadarnhaol Posibl:**

- Gallai mwy o sicrwydd a rhagweladwyedd ynghylch dyddiadau rhyddhau o'r carchar leddfu pryderon
- Gall gwell canlyniadau adsefydlu cymunedol leihau cyfraddau troseddu a'r tebygolrwydd o ddioddef trosedd

**Effeithiau Negyddol Anfwriadol Posibl:**

- Llai o ymdeimlad o ddiogelwch pan fo unigolion sy'n cyflawni troseddau yn aros yn y gymuned, a all arwain at lefelau uwch o bryder, ofn dioddef eto a gofid

## Pobl ar incwm isel

**Mae'r grŵp hwn yn cynnwys unigolion sy'n profi ansicrwydd ariannol, sy'n aml yn golygu prinder incwm gwario i fodloni anghenion hanfodol**

**Effeithiau Negyddol Anfwriadol Posibl:**

- Colli mynediad at gampfeydd a gweithgarwch corfforol sydd ar gael yn y carchar ac a allai fod yn anfforddiadwy yn y gymuned
- Diffyg diogeledd bwyd a cholli mynediad at ddeiet cytbwys a phrydau bwyd rheolaidd a ddarperir yn y carchar

## Sefydliadau Cyfiawnder Troseddol a'r Trydydd Sector

**Mae'r grŵp hwn yn cynnwys sefydliadau statudol, gwirfoddol a chymunedol sy'n darparu gwasanaethau cymorth megis llety, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, ac ati.**

**Effeithiau Cadarnhaol Posibl:**

- Efallai y bydd gostyngiad mewn galw a achosir gan argyfwng, e.e. y rhai sy'n wynebu digartrefedd ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa.

**Effeithiau Negyddol Anfwriadol Posibl:**

- Efallai y bydd mwy o alw am wasanaethau cymunedol megis gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, tai a chymorth gyda chamddefnyddio sylweddau. Os na cheir cynnydd cyfatebol mewn adnoddau, efallai na fydd y gwasanaethau hyn yn ddigon i fodloni'r galw.

## Pobl sy'n defnyddio sylweddau

**Mae'r grŵp hwn yn cynnwys unigolion ag anghenion camddefnyddio sylweddau gan gynnwys cyffuriau ac alcohol**

**Effeithiau Cadarnhaol Posibl:**

- Llai o amlygiad i sylweddau anghyfreithlon niweidiol sydd ar gael mewn carchardai

**Effeithiau Negyddol Anfwriadol Posibl:**

- Ymateb brys llai uniongyrchol yn sgil gorddosau (h.y. mae staff gofal iechyd ar gael yn y rhan fwyaf o garchardai 24/7 i ymateb i sefyllfaoedd brys)
- Llai o fynediad at raglenni dadwenwyno a gynigir yn y ddalfa
- Gall rhyddhau cynnar o'r ddalfa arwain at ymyrraeth â thriniaeth ac felly bydd angen ystyried parhad gofal



## Argymhellion

### 1 Adolygu'r model gofal iechyd carchardai i sicrhau ei fod yn addas at y diben mewn ymateb i gynydd yn y boblogaeth a newidiadau

Bydd poblogaeth y carchar yn parhau i dyfu'n gyson dros y degawd nesaf, a mae'r rhagolygon yn dangos cynnydd yn nifer y carcharorion hŷn. Mae iechyd unigolion o fewn y system cyfiawnder troseddol yn waeth na grwpiau cymharol o'u cyfoedion, felly mae'n debygol y bydd mwy o alw am ddarpariaeth gofal iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai. Pan fo arosiadau mewn carchar yn cael eu cwtogi (h.y. 33% yn lle 40%, neu 50% yn lle 67%), efallai y bydd gan wasanaethau iechyd carchardai lai o amser i nodi ac i ymdrin ag anghenion iechyd a llai o gyfleoedd i hyrwyddo iechyd.

**Casgliad:** Efallai y bydd angen dulliau newydd ar wasanaethau iechyd carchardai, gan gynnwys cryfhau brysbennu er mwyn nodi pwy sydd âr anghenion iechyd mwyaf. Bydd angen gwella sut mae pryderon iechyd yn cael eu cyfathrebu rhwng asiantaethau wrth dderbyn pobl i'r carchar ac wrth eu rhyddhau. Dylai darparwyr iechyd ac arweinwyr carchardai gynllunio ar gyfer newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol a chynnydd mewn anghenion iechyd er mwyn sicrhau y gall adnoddau fodloni'r angen a'r galw.

### 2 Sicrhau parhad gofal priodol i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o dan gynlluniau rhyddhau cynnar

Bydd newidiadau'r Ddeddf Dedfrydu o ran rhyddhau pwyntiau i'r rhai sy'n bwrw dedfrydau SDS, SDS+ ac adalw cyfnod safonol yn arwain at ryddhau cynnar i rai[27]. Bydd yr unigolion hyn yn cael eu rhyddhau mewn cyfrannau o fis Medi 2026 ymlaen[28], sy'n golygu y bydd cannoedd lawer o garcharorion ledled Cymru a Lloegr yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd. Bydd hyn yn rhoi pwysau ar awdurdodau lleol a gwasanaethau cymunedol eraill, megis gofal cymdeithasol yng Nghymru sydd eisoes dan straen sylweddol[29].

Fel gyda phob rhyddhad o garchar, mae parhad gofal mewn perthynas ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn bwysig er mwyn sicrhau ailsefydlu di-dor yn y gymuned. Yn aml mae gan bobl yn y carchar anghenion gofal iechyd cymhleth, felly mae angen rhoi sylw arbennig i'r rhai sydd ag anghenion gofal cymdeithasol lefel uchel a'r rhai sy'n cael gofal lliniarol er mwyn sicrhau bod digon o amser i gydlynu a rhoi trefniadau ar waith cyn rhyddhau.

**Casgliad:** Dylai'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf gydweithio'n agos â gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys awdurdodau lleol, y GIG, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a darparwyr perthnasol eraill, a rhoi sylw arbennig i unigolion ag anghenion cymhleth.

## 3 Cefnogi Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol i barhau i gael mynediad at y gwasanaethau iechyd sydd ar gael ar hyn o bryd mewn

Mae carchardai yn cynnig mynediad at ofal iechyd sylfaenol, cymorth camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl ar y safle. Gallai mwy o ddedfrydu cymunedol gyfyngu ar fynediad at y gwasanaethau hyn o ran unigolion sydd wedi defnyddio llawer ar ofal iechyd yn y carchar yn y gorffennol ond â hanes o beidio ag ymgysylltu â gwasanaethau cymunedol. Gallai methu â gwella ymgysylltiad cymunedol arwain at fethu bodloni anghenion iechyd corfforol a meddyliol a chanlyniadau iechyd gwaeth. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys y canlynol:

- Sgrinio feirysau a gludir yn y gwaed
- Sgrinio ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Sgrinio arall lle mae mynediad yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso gan leoliadau carchar, e.e. sgrinio llygaid diabetig, sgrinio'r coluddyn a sgrinio anewrysm aortig yn yr abdomen
- Meddyg Teulu
- Optegwyr
- Gofal deintyddol
- Cymorth i roi'r gorau i ysmygu
- Clinigau brechu ac imiwneiddio

Er bod y gwasanaethau hyn ar gael o fewn y gymuned, mae ymgysylltiad yn aml yn cael ei rwystro gan bethau megis stigma, amgylchiadau bywyd anhrefnus (gan gynnwys ansefydlogrwydd tai a chamddefnyddio sylweddau), diffyg hunaniaeth, tlodi, rhwystrau iaith, mynediad cyfyngedig at drafnidiaeth a lefelau isel o lythrennedd iechyd. O ganlyniad, dylid rhoi mwy o bwyslais ar hyrwyddo gwasanaethau a mabwysiadu modelau ymgysylltu rhagweithiol sy'n seiliedig ar allgymorth.

**Casgliad:** Dylai gwasanaethau ystyried sut i wella'r gefnogaeth i ddefnyddio darpariaeth iechyd cymunedol, a hynny trwy hyrwyddo gwasanaethau iechyd gan asiantaethau cyfiawnder, er enghraifft, clinigau galw heibio o fewn lleoliadau prawf[30] . Mae rhai safleoedd Prawf ledled Cymru yn cynnig clinigau galw heibio sy'n cynnig profion sgrinio am firysau a gludir yn y gwaed a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Mae'r clinigau hyn yn hawdd eu cyrraedd ac yn chwalu'r rhwystrau a allai atal unigolion rhag ymgysylltu. Gellid cyflwyno gwasanaethau o'r fath yn ehangach lle nad ydynt ar gael ar hyn o bryd. Byddai canolfannau cyswllt prawf yn elwa o gryfhau cysylltiadau â gwasanaethau cymunedol eraill, megis meddygon teulu, optegwyr a deintyddion, trwy sesiynau allgymorth a llwybrau atgyfeirio cryfach. Dylid adolygu dyluniad gofal sylfaenol er mwyn gwella mynediad poblogaethau cyfiawnder troseddol atynt, gan ddysgu gwersi gan wasanaethau iechyd cynhwysiant pwrpasol a chan ystyried ffactorau fel stigma, allgau digidol a chysylltiadau trafnidiaeth wrth ddylunio gwasanaethau.

## 4 Paratoi ar gyfer mwy o alw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol a gwasanaethau cymorth eraill

### Gwasanaethau Iechyd:

Gofal Sylfaenol: Mae'n debygol y bydd mwy o ddedfrydu cymunedol yn arwain at unigolion a oedd yn y ddalfa gynt yn aros yn y gymuned. Gall hyn roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygfeydd teulu, optegwyr a gwasanaethau deintyddol, sydd eisoes yn gweithredu dan straen sylweddol.

Gofal eilaidd: Efallai y bydd rhai unigolion yn methu ag ymgysylltu â gwasanaethau gofal sylfaenol ac o ganlyniad bydd ganddynt anghenion iechyd sydd ddim yn cael eu bodloni a allai arwain at fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys, gan gynyddu'r galw ar y gwasanaeth hwn.

Cymorth Sylweddau a Gwasanaethau Iechyd Meddwl: Disgwylir i gynnydd mewn dedfrydau cymunedol arwain at fwy o alw am gymorth alcohol a chyffuriau a gwasanaethau iechyd meddwl. Yn benodol, bydd mwy o angen am Ofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol (CSTR). Gan fod y gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu gan HMPPS, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a Byrddau Cynllunio Ardal, bydd angen i gomisiynwyr ystyried ehangu'r ddarpariaeth a/neu wella targedu i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu'r galw cynyddol yn effeithiol. Mae'n debygol y bydd y model comisiynu ar gyfer contractau camddefnyddio sylweddau yn newid o 2028 ymlaen yn sgil diddymu'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

### Gwasanaethau Eraill:

Mae cynnydd yn y defnydd o ddedfrydu cymunedol fel dewis amgen i gadw pobl yn y ddalfa yn debygol o gynyddu'r galw am ystod o wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd sy'n cefnogi pobl o fewn y system gyfiawnder. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau cyflogaeth a sgiliau, darparwyr addysg a hyfforddiant, cymorth tai, cyngor ariannol a chyngor ar ddyledion, yn ogystal â gwasanaethau megis banciau bwyd.

Er nad yw'r gwasanaethau hyn yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar iechyd, maent yn chwarae rhan hanfodol wrth wella iechyd a llesiant drwy fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, megis incwm, sefydlogrwydd tai a chynhwysiant cymdeithasol.

**Casgliad:** Dylai darparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n comisiynu'r gwasanaethau hyn ragweld cynnydd yn y galw a sicrhau eu bod yn cael eu hariannu, eu comisiynu a'u hadnoddu'n briodol i ddiwallu'r cynnydd disgwyliedig yn y galw.

## 5 Ystyriwch effaith llai o oruchwyliaeth gymunedol ar allu Pobl ar Brawf i gael mynediad at wasanaethau a chymorth

Bydd y gwasanaeth prawf yn canolbwyntio ei adnoddau ar oruchwylio unigolion sy'n peri'r risg fwyaf ac yn cynnig llai o apwyntiadau i'r rhai sy'n peri risg is[31]. Bydd rhai unigolion yn cael eu goruchwylio am gyfnodau byr iawn oherwydd dileu Goruchwyliaeth Ôl-ddedfrydu[32]. Gall hyn gael canlyniadau anfwriadol, gan gynnwys:

- Lleihau cyfleoedd i gyfeirio, atgyfeirio a chymell unigolion i ymgysylltu â gwasanaethau cymunedol e.e. iechyd meddwl, gwasanaethau cymorth sylweddau, cyngor ar dai a chyllid a dyled, ac ati.
- Llai o gyfleoedd i ymyrryd mewn sefyllfaoedd acíwt fel pan fydd unigolyn yn ailddechrau defnyddio cyffuriau neu alcohol, neu lle mae risg uwch o hunanladdiad neu hunan-niweidio

Mae gan unigolion sy'n destun goruchwyliaeth gymunedol (gan gynnwys y rhai sy'n destun dedfrydau cymunedol a rhyddhau ar drwydded ar ôl bod yn y carcharu) risg uwch o farwolaeth trwy hunanladdiad neu wenwyn cyffuriau o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol[33]. Bydd y newidiadau i gwmpas yr oruchwyliaeth yn lleihau cyfleoedd i ymarferwyr prawf ymyrryd.

**Casgliad:** Gan ystyried y ffaith y bydd llai o gysylltiad â rhai Pobl ar Brawf o dan oruchwyliaeth gymunedol, dylid blaenoriaethu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol a dylid rhoi mwy o bwyslais ar eu helpu i gael mynediad at wasanaethau'n annibynnol yn ystod, ac ar ôl, eu cyfnod goruchwylio.

Felly, dylai ymarferwyr prawf flaenoriaethu cynlluniau ar gyfer y cyfnod pontio allan o oruchwyliaeth, gan sicrhau bod atgyfeiriadau a threfniadau cymorth priodol ar waith i alluogi parhad gofal.

Dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ystyried sut i ymgysylltu ag unigolion y tu allan i leoliadau prawf, megis gwasanaethau eraill y gall pobl yn y system cyfiawnder troseddol eu defnyddio (e.e. hosteli i'r digartref, gwasanaethau cymorth cyffuriau a banciau bwyd, ac ati).

## 6 Ystyried y goblygiadau cost ar wasanaethau datganoledig a gwasanaethau eraill sy'n cefnogi unigolion yn y system cyfiawnder troseddol

Er bod yr adroddiad hwn yn ystyried effeithiau posibl y newidiadau, yn enwedig o ran y galw cynyddol posibl am wasanaethau fel gofal iechyd, tai, gofal cymdeithasol, darpariaeth camddefnyddio sylweddau, a chefnogaeth ehangach i'r trydydd sector, nid yw'n asesu'r effaith economaidd gysylltiedig.

**Casgliad:** Argymhellir cynnal dadansoddiad economaidd pellach i ddeall y goblygiadau ariannol ar gyfer gwasanaethau datganoledig a sefydliadau'r trydydd sector yn llawn.

# Cyfeiriadau

[1] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Criminal justice statistics quarterly: Rhagfyr 2025. Offeryn canlyniadau yn ôl data troseddau, Tabl 2. Cyhoeddwyd 2026 Ebrill 30. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-statistics-quarterly-december-2025 [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026].
[2] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Tens of thousands more to be tagged under biggest ever expansion. Cyhoeddwyd 2 Medi 2025. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/news/tens-of-thousands-more-to-be-tagged-under-biggest-ever-expansion [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026].
[3] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Sentencing Bill 2025: sentencing measures factsheet. 2025. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-sentencing-measures-factsheet [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026].
[4] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Evaluation report: the impact of being sentenced with a community sentence treatment requirement (CSTR) on proven reoffending (2018). Ministry of Justice Analytical Series. 2024. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/impact-of-being-sentenced-with-a-community-sentence-treatment-requirement-cstr-on-proven-reoffending [Wedi'i gyrchu Ebrill 23, 2026]. t.18
[5] Adolygiad Dedfrydu Annibynnol. Independent Sentencing Review: final report and proposals for reform – Part 2. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder; 2025. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/682d8d995ba51be7c0f45371/independent-sentencing-review-report-part_2.pdf [Wedi'i gyrchu Ebrill 23, 2026]. t.4
[6]Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Sentencing Bill 2025: sentencing measures factsheet. 2025. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-sentencing-measures-factsheet [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026].
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Sentencing Bill 2025: remand measures factsheet. 2025. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-remand-measures-factsheet [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026].
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Sentencing Bill 2025: progression measures factsheet. 2025. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-progression-measures-factsheet [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026].
[7]Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Electronic monitoring: responding to increasing demand. 2026. Ar gael o: https://www.nao.org.uk/work-in-progress/electronic-monitoring-responding-to-increasing-demand/ [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026]
[8] Adolygiad Dedfrydu Annibynnol. Independent Sentencing Review: final report and proposals for reform – Part 2. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder; 2025. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/682d8d995ba51be7c0f45371/independent-sentencing-review-report-part_2.pdf [Wedi'i gyrchu Ebrill 23, 2026]. t.30
[9] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. 10 year prison capacity strategy. 2024. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/10-year-prison-capacity-strategy [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026]. t.4
[10] Wedi'i gyfrifo drwy ychwanegu'r capasiti gweithredol cyfredol a'r mannau ychwanegol a gynllunnir.
Capasiti gweithredol cyfredol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bwletin poblogaeth: misol Mawrth 2026 (poblogaeth carchardai: ffigurau carchardai misol 2026). 2026. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/prison-population-monthly-prison-figures-2026
Lle ychwanegol wedi'i gynllunio: Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin. *The future of HMP Parc*. Trydydd adroddiad sesiwn 2024–26. Llundain: Tŷ'r Cyffredin; 30 Mawrth 2026. (HC 702). Ar gael o: https://publications.parliament.uk/pa/cm5901/cmselect/cmwelaf/702/report.html
Cyngor Sir Fynwy *Planning application DM/2023/00964: HMP Prescoed Young Offenders Institution* [Internet]. Sir Fynwy: Cyngor Sir Fynwy; 2023 [dyfynnwyd 8 Mai 2026]. Ar gael o: https://planning.org.uk/app/66/RXFJ1PKYIDN00
[11] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Annual statement on prison capacity: 2025. 2026. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/annual-statement-on-prison-capacity-2025 [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026]. t.10
[12] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Annual statement on prison capacity: 2025. 2026. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/annual-statement-on-prison-capacity-2025 [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026]. t.8
[13] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. Growing old and dying inside: older prisoners in England and Wales. 2021. Ar gael o: https://prisonreformtrust.org.uk/wp-content/uploads/2024/08/Growing-old-and-dying-inside.pdf [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026]. [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026]. t.9
[14] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. Growing old and dying inside: older prisoners in England and Wales. 2021. Ar gael o: https://prisonreformtrust.org.uk/wp-content/uploads/2024/08/Growing-old-and-dying-inside.pdf [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026]. t.9
[15] Stürup-Toft S, O'Moore EJ, Plugge EH. Looking behind the bars: emerging health issues for people in prison. Br Med Bull. 2018;125(1):15–23. doi:10.1093/bmb/ldx052=
[16] Stürup-Toft S, O'Moore EJ, Plugge EH. Looking behind the bars: emerging health issues for people in prison. *Br*

*Med Bull*. 2018;125(1):15–23. doi:10.1093/bmb/ldx052=

[17]Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2025). Building an effective and resilient Probation Service. https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2025/10/building-an-effective-and-resilient-probation-service.pdf . [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026] t.5

[18]Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2025). Building an effective and resilient Probation Service. https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2025/10/building-an-effective-and-resilient-probation-service.pdf . [Wedi'i gyrchu Ebrill 23 2026] [Wedi'i gyrchu Ebrill 23 2026]. t.49

[19] UK Government, Police and crime commissioners to be scrapped, GOV.UK https://www.gov.uk/government/news/police-and-crime-commissioners-to-be-scrapped [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026]

[20] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. The impact of overcrowding on assaults in closed adult public prisons. 2025. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/the-impact-of-overcrowding-on-assaults-in-adult-public-prisons/the-impact-of-overcrowding-on-assaults-in-closed-adult-public-prisons [Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026]

[21] Adolygiad Dedfrydu Annibynnol. Independent Sentencing Review: final report and proposals for reform – Part 2. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder; 2025. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/682d8d995ba51be7c0f45371/independent-sentencing-review-report-part_2.pdf [Wedi'i gyrchu Ebrill 23 2026] t. 21.

[22] Lafferty L, Treloar C, Butler T, Guthrie J, Chambers GM. Unlocking dimensions of social capital in the prison setting. *Health Justice*. 2016;4:9. doi:10.1186/s40352-016-0040-z.

[23] Sentencing Academy, The Future of Deferred Sentencing (2025), t. 15, https://www.sentencingacademy.org.uk/wp-content/uploads/2025/10/The-Future-of-Deferred-Sentencing.pdf

[24] Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin (2022). Women in Prison: First Report of Session 2022–23. Ar gael yn: https://publications.parliament.uk/pa/cm5803/cmselect/cmjust/265/report.html (Cyrchwyd: 2026 Ebrill 23).

[25] Senedd Cymru (2023) A yw'r system cyfiawnder troseddol yn methu yn achos menywod Cymru? Ar gael yn: https://senedd.cymru/senedd-nawr/blog-y-senedd/a-yw-r-system-cyfiawnder-troseddol-yn-methu-yn-achos-menywod-cymru/ (Wedi'i gyrchu: 2026 Ebrill 23).

[26]Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, A Smarter Approach to Sentencing (2020), t. 52, https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5f61d395d3bf7f723c19cb42/a-smarter-approach-to-sentencing.pdf

[27] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. The Sentencing Act: information sheet. 2026 Ion. Ar gael o: https://prisonreformtrust.org.uk/wp-content/uploads/2026/02/Sentencing-Act-information-sheet-January-2026.pdf [Wedi'i gyrchu 26 Ebrill 23] t.2

[28] The Sentencing Act 2026 (Commencement No. 4) Regulations 2026.

[29] Ymchwil y Senedd, *Diwygio gofal cymdeithasol i oedolion: A yw Cymru'n barod i wynebu'r pwysau cynyddol ar y system gofal?* https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/diwygio-gofal-cymdeithasol-oedolion-a-yw-cymru-yn-barod-i-wynebu-r-pwysau-cynyddol-ar-y-system-gofal// [Wedi'i gyrchu 18 Mai 26]

[30] Ar hyn o bryd dim ond mewn ychydig o safleoedd prawf ledled Cymru y mae profion BBV ac STI ar gael ond gellid eu hehangu ymhellach, gweler: Challenger A, Gray BJ, Davies L, Plant J, Perrett SE. Feasibility of providing Sexually Transmitted Infection and Blood Borne Virus testing in a UK probation setting: findings from a service evaluation. *Discover Health Systems*. 2025;4:2. doi:10.1007/s44250-024-00174-7

[31] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth EF. Government announces plans to tag thousands of extra offenders [Rhyngrwyd]. Llundain: GOV.UK; 2026 Mawrth 19 Ar gael o: https://www.gov.uk/government/news/government-announces-plans-to-tag-thousands-of-extra-offenders (Wedi'i gyrchu Ebrill 2026)

[32] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. *Sentencing Bill: sentencing measures factsheet* [Rhyngrwyd]. Llundain: GOV.UK; 27 Tachwedd 2025 Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-sentencing-measures-factsheet (Wedi'i gyrchu 23 Ebrill 2026)

[33] Slade K, Justice L, Martijn F, Borschmann R, Baguley T. Deaths among adults under supervision of the England and Wales' probation services: variation in individual and criminal justice-related factors by cause of death. Cyfiawnder Iechyd. 2024;12(1):10. https://doi.org/10.1186/s40352-024-00263-y